

Tribiwnlys Priso Cymru – Swydd Ddisgrifiad

Prif Weithredwr

Amcan Cyffredinol

Mae'n ofynnol i Brif Weithredwr sicrhau, diogelu a chynnal gwasanaeth Tribiwnlys Priso ansawdd uchel trwy'r amser.

Rhaid i'r Prif Weithredwr amsugno newidiadau ac ymateb iddynt, pryd bynnag y byddant yn digwydd, mewn modd sy'n sicrhau cyflawni'r amcan cyffredinol.

Yn atebol i:

Yn bennaf: Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Priso Cymru

Ynghyd â: Llywydd Tribiwnlys Priso Cymru
Holl aelodau Tribiwnlys Priso Cymru

Cyfrifoldebau rheoli pobl:

Cyfrifoldeb rheoli llinell penodol dros: Rheolwyr Gweithredol
Cyfrifoldeb rheoli cyffredinol dros: Holl staff eraill Tribiwnlys Priso Cymru

Prif Swyddogaethau:

- Sicrhau bod Tribiwnlys Priso Cymru'n gweithredu'n effeithiol ac effeithlon wrth ddarparu ei wasanaethau i bobl Cymru, a'i fod yn cyflawni ei holl ymrwymadau statudol a rheoleiddiol fel corff corfforaethol ac fel cyflogwr.
- Cyfarwyddo a rheoli holl waith a swyddogaethau gweinyddol Tribiwnlys Priso Cymru yn unol â pholisïau a nodau strategol y Cyngor Llywodraethu, yn cynnwys rheolaeth gyffredinol staffio, cyllido, safleoedd, cyfleusterau, systemau Technoleg Gwybodaeth ac adnoddau.
- Cynorthwyo'r Cyngor Llywodraethu wrth ddatblygu cynlluniau, polisïau a nodau strategol Tribiwnlys Priso Cymru yn y dyfodol.
- Sicrhau bod yr holl gyllid a gwariant yn cael ei reoli'n briodol, ei ddogfenu a'i gyfrifo yn gywir.
- Sicrhau bod holl swyddogaethau a chyfrifoldebau rôl statudol Clerc y Tribiwnlys yn cael eu cyflawni.
- Sicrhau bod unrhyw risgiau a wynebir gan Tribiwnlys Priso Cymru yn cael eu nodi, eu lleihau a'u rheoli.
- Sicrhau bod yr holl staff ac aelodau'n derbyn hyfforddiant rheolaidd ac yn cael eu datblygu yn eu rolau.
- Hyrwyddo a gwreiddio defnyddio'r Gymraeg yn holl weithdrefnau a thrafodion Tribiwnlys Priso Cymru.

- Cynrychioli Tribiwnlys Priso Cymru mewn digwyddiadau a chyfarfodydd a drefnir gan gyrff allanol. Yn benodol, gweithredu fel prif gyswllt Tribiwnlys Priso Cymru gyda Llywodraeth Cymru.

Cyfrifoldebau gweithredol a gweinyddol penodol:

- Llunio cynlluniau gweithredol Tribiwnlys Priso Cymru yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor Llywodraethu.
- Llunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol Tribiwnlys Priso Cymru (yn cynnwys y cyfrifon ariannol).
- Llunio adroddiad Safonau'r Gymraeg Tribiwnlys Priso Cymru.
- Hysbysu aelodau Tribiwnlys Priso Cymru am faterion a datblygiadau sy'n effeithio ar Dribiwnlys Priso Cymru trwy gyfrwng llythyrau newyddion.
- Cynnal etholiadau mewnol ar gyfer swyddi'r Llywydd a Chynrychiolydd Cenedlaethol pan fo angen.
- Gweithredu fel clerch i banel penodiadau'r Cyngor Llywodraethu.
- Cynnal adolygiadau datblygiad y Rheolwyr Gweithredol.

Newid a datblygiad y swydd

Er mwyn cydnabod y ffaith y gall swyddogaethau a thasgau unrhyw rôl newid dros amser mewn ymateb i amgylchiadau'n newid, gellid cael achlysuron pan fydd yn ofynnol cyflawni cyfrifoldebau eraill, sy'n gymesur â swyddogaeth a graddfa'r swydd, gan ddeiliaid y swydd cyn y gellir ymgorffori'r newidiadau a'r datblygiadau hyn yn y rhestr uchod.